

Croeso i'n pumed daflen newyddion!

Mae llawer o gartrefi a busnesau yn ardaloedd y Rhath, Penylan a Newport Road mewn perygl llifogydd o Nant Lleucu ac Afon Rhymni. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i ddylunio ac i ddarparu cynllun llifogydd.

Sesiwn Alw Heibio Gyhoeddus fis Hydref

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyflwyno sylwadau ar y cynigion drafft. Ar ôl cynnal y sesiwn alw heibio ac arddangosfa gyhoeddus fis Medi, cafodd sesiwn alw heibio arall ei chynnal ar 7 Hydref oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ardaloedd Waterloo a Railway Gardens (Sandies / Minster Gardens).



Sesiwn Alw Heibio
Gyhoeddus fis Hydref 2014

Gallwch ddal i weld a chyflwyno sylwadau ar y cynigion...

Mae copïau o'r posteri o sesiynau fis Medi a mis Hydref ar gael i'w llawr lwytho o'n gwefan. Fe welwch ein bod wedi newid ychydig ar bedair sleid i gynnwys brasluniau delweddu newydd ac wedi diweddarau'r cynlluniau ar gyfer Railway Gardens. nEr bod y terfyn amser wedi mynd heibio, mae dal croeso i chi ehostio eich sylwadau.

<http://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/media-and-news-centre/newsletters/roath-flood-scheme-newsletter/?lang=cy>

Er mwyn cysylltu â ni neu dderbyn newyddion:

Roath@NaturalResourcesWales.gov.uk

Ni'n gofyn, chi'n dweud, ni'n gwneud!

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn am yr holl adborth, cwestiynau, sylwadau a brasluniau gwerthfawr oddi wrth drigolion lleol, defnyddwyr y parc a grwpiau cymunedol. Mae crynodeb isod o'r sylwadau a dderbyniwyd a sut y maen nhw wedi'i cynnwys.

Roedd mwy na thri chwarter o'r rhai a ymatebodd **yn cefnogi'r cynigion.**

Fel oedd yn cael ei ddangos yn nefnyddiau sesiwn alw heibio fis Hydref, rydyn ni wedi cael gwared ar y **ramp o Waterloo Gardens** i Railway Gardens oherwydd pryderon ynghylch preifatrwydd.

Roedd pawb yn cytuno y dylid cadw uchder presennol y rheiliau er diogelwch y Gerddi. Roedd sawl sylw'n pwysleisio y dylid cadw at arddull y rheiliau llaw - sy'n rhywbeth rydyn ni'n gweithio arno.

Roedd mwyafrif helaeth o'r rhai a gyflwynodd sylwadau ar **wynebu'r waliau** yn cefnogi'r cynigion i ddefnyddio cyfuniad o ddefnyddiau, yn benodol briciau a cherrig. Roedd rhai pobl yn tynnu sylw fod briciau i'w gweld yn y tirwedd Edwardaidd. Roedd yn well gan rai eraill gerrig. Y neges allweddol oedd y dylai'r waliau gyd-fynd â'r hyn sydd o'u cwmpas.

Roedd eich sylwadau'n nodi y dylai **arddull y pontydd troed newydd** fod yn cyd-fynd â natur y parciau. Byddwn yn cael ein hysbrydoli gan y bont droed newydd sydd wedi'i gosod yn lle'r hen un yng Ngerddi Nant Lleucu.

Roedd pawb yn cefnogi cael un bont droed newydd yn Railway Gardens i wella'r rhwydwaith drwy'r parciau.

Roedd llawer yn hoffi'r cynnig o gynnwys Railway Gardens yn rhwydwaith ehangach y parc er bod rhai'n awyddus i gadw'r man agored unigryw ar gyfer gemau peli ac yn awyddus i beidio ag annog ymddygiad gwrth gymdeithasol.

Beth nesaf?

Rydyn ni'n gweithio i gwblhau'r dyluniad a byddwn yn parhau i rannu diweddariadau drwy gyfrwng cylchlythrau. Rydyn ni'n paratou Cynigion Dylunio i'w cyflwyno i Gyngor Caerdydd, y cyntaf ar gyfer gwaith rhwng Rhodfa Colchester a Heol Ipswich ac yna, yn gynnar yn 2015, gwaith rhwng Heol Penylan i Rodfa Colchester.

Byddwn yn cysylltu ymhellach â'r rhai a oedd yn mynegi cefnogaeth i'r gwahanol **fentrau cymunedol**, gan gynnwys gwarchod parc, clirio ysbwriel o'r nant a'r cynllun llifogydd cymunedol.

Roedd yna gryn unfrydedd y dylid plannu a thirlunio i guddio'r wal llifogydd a'r parapet ar **bont Waterloo Road** yn lle grisiau.

Rydych wedi cyflwyno rhai syniadau defnyddiol iawn ar gyfer ailblannu. Mae'r negeseuon allweddol yn cynnwys:

- Byddwn yn ail blannu gyda rhywogaethau cynhenid, mewn mannau addas.
- Rydyn ni'n gwneud pob ymdrech i gadw'r coed cofebion ond efallai y bydd yn rhaid symud ambell un. Byddwn yn trafod yn bersonol ag unrhyw un a fydd yn cael ei effeithio cyn penderfynu'n derfynol.
- Byddwn yn ystyried ychwaneg o waith plannu neu arglwdd pridd i guddio'r strwythurau fel bo'n addas.

Roedd yna amrywiaeth o syniadau ynghylch blaenoriaethu **gwelliannau mwynderau a bywyd gwyllt**, megis cynefinoedd newydd i ddenu mwy o fywyd gwyllt. Roedd rhai'n cefnogi creu Llwybr Celf neu Natur. Byddwn yn ceisio gwella'r defnyddiau presennol ym mhob ardal gymaint ag sydd bosibl a chyn belled ag y bydd ein harian prin yn ei ganiatáu.

Â phwy arall y byddwn ni'n trafod?

Rydyn ni wedi ymgynghori â llawer o sefydliadau gan gynnwys Cyngor Caerdydd, Cadw, Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg a Gwent, Grŵp Cadwraeth Dwyrain Caerdydd a Dŵr Cymru. Rydyn ni hefyd wedi cael tri adolygiad Design Commission for Wales.

Mae ychydig o bobl wedi gofyn sut i weld fersiwn fwy o ddefnyddiau'r sesiynau galw heibio cyhoeddus...


Gobeithio y bydd y canlynol o help. Mae croeso i chi ebostioil:
Roath@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
os cewch chi unrhyw anhawster.

1 Ewch i www.flickr.com/photos/natreswales/sets/72157647739257552/

2 Cliciwch ar unrhyw lun poster galw heibio i'w agor.

3 Cliciwch ar yr Eicon Llwr Lwytho

4 Cliciwch ar y maint rydych ei eisiau a bydd y llun yn agor / llwr lwytho.



Er mwyn cysylltu â ni neu dderbyn newyddion:
Roath@NaturalResourcesWales.gov.uk